

**FFURFLEN MANYLION POLISI**  
**POLICY IDENTIFICATION FORM /FRONTSHEET**

<p><i>TEITL Y POLISI:</i> <i>POLICY TITLE:</i></p>	<p><i>Y Polisi o ran Derbyn Myfyrwyr AU</i></p>
<p><i>UWCH GYFARWYDDWR Â CHYFRIFOLDEB:</i> <i>RESPONSIBLE EXECUTIVE DIRECTOR:</i></p>	<p><i>James Nelson</i></p>
<p><i>PWRPAS:</i> <i>PWRPAS:</i></p>	<p><i>Pwrpas y polisi hwn yw darparu gwybodaeth i rai sy'n holi, i ymgeiswyr, i ddysgwyr sy'n symud ymlaen, i rieni ac i gynghorwyr ynghylch recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr ar raglenni addysg uwch yng Ngrŵp Llandrillo Menai.</i></p>
<p><i>EFFAITH AR DDWYIEITHRWYDD</i> <i>IMPACT ON BILINGUALISM</i></p>	<p><i>Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar ddiwedd y ddogfen.</i></p>
<p><i>EFFAITH AR GYDRADDOLDEB</i> <i>IMPACT ON EQUALITY</i></p>	<p><i>Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar ddiwedd y ddogfen.</i></p>
<p><i>EFFAITH AR GYNALIADWYEDD</i> <i>IMPACT ON SUSTAINABILITY</i></p>	<p><i>Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar ddiwedd y ddogfen.</i></p>
<p><i>ARGYMHELLIAD:</i> <i>RECOMMENDATION:</i></p>	<p><i>Cymeradwyo</i></p>
<p><i>CYFATHREBU</i> <i>COMMUNICATION</i></p>	<p><i>Y Tîm Strategol, Porth y Grŵp</i></p>
<p><i>PWYLLGOR / GRŴP MONITRO:</i> <i>COMMITTEE / GROUP RESPONSIBLE FOR MONITORING:</i></p>	<p><i>Y Tîm Polisi</i> <i>PCMS</i> <i>Y Bwrdd</i></p>
<p><i>CYMERADWYWYD GAN (A'R DYDDIAD):</i> <i>APPROVED BY (AND DATE):</i></p>	<p><i>Y Tîm Strategol – 11/10/2021</i> <i>PCMS– 03/11/2021</i> <i>Y Bwrdd - 11/11/2021</i></p>
<p><i>DYDDIAD ADOLYGU</i> <i>REVIEW DATE CYCLE:</i></p>	<p><i>Ddwywaith y flwyddyn</i></p>

# Grŵp Llandrillo Menai

## Y POLISI O RAN DERBYN MYFYRWYR ADDYSG UWCH

---

## Cynnwys

---

ADRAN 1	PWRPAS	3
ADRAN 2	CWMPAS	3
ADRAN 3	ARFERION DERBYN TEG	4
ADRAN 4	ROLAU, CYFRIFOLDEBAU a LLYWODRAETHIANT	4
ADRAN 5	Y BROSES YMGEISIO	5
ADRAN 6	Y PROESAU O RAN DERBYN MYFYRWYR LLAWN AMSER	8
ADRAN 7	Y BROSES O RAN DERBYN MYFYRWYR RHAN-AMSER	12
ADRAN 8	DATA PERSONOL YMGEISWYR	12
ADRAN 9	FFIOEDD A CHYMORTH ARIANNOL	13
ADRAN 10	CWYNION AC APELIADAU	13
ADRAN 11	MONITRO A GWERTHUSO	14
ADRAN 12	GWYBODAETH BELLACH	15

---

## ADRAN 1 PWRPAS

---

- 1.1 Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth derbyn proffesiynol, gan ddarparu gwybodaeth ac arweiniad clir, mewn modd teg a chyson, yn unol â'r polisiau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. Nod Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) yw darparu mynediad teg a chyfartal i bob darpar fyfyrwr a all elwa ar y bywyd academiaidd, ac a all gyfrannu i'r bywyd academiaidd, yn holl golegau'r Grŵp.
- 1.2 Pwrpas y polisi hwn yw darparu gwybodaeth i rai sy'n holi, i ymgeiswyr, i ddysgwyr sy'n symud ymlaen, i rieni ac i gynghorwyr ynghylch recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr ar raglenni addysg uwch yng Ngrŵp Llandrillo Menai.

Er mwyn darparu mynediad teg a chyfartal i bob darpar fyfyrwr, mae Grŵp Llandrillo Menai'n cydnabod ei bod yn bosibl y bydd gofyn iddo fod yn hyblyg, a lle bo'n briodol, wneud addasiadau ar gyfer ymgeiswyr unigol e.e. ymgeiswyr sydd ag anhawster corfforol neu anhawster dysgu neu ymgeiswyr sydd wedi wynebu amgylchiadau eithriadol.

- 1.3 Gall myfyrwyr cymwys sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig, boed yn fyfyrwyr llawn amser neu ran-amser, wneud cais i'r llywodraeth am gymorth ariannol i'w helpu i dalu eu ffioedd dysgu. Gall myfyrwyr llawn amser cymwys hefyd wneud cais am gymorth tuag at gostau byw. Mae dau fath o gymorth ariannol ar gael:
  - Benthyciadau y bydd gofyn eu had-dalu
  - Grantiau na fydd gofyn eu had-dalu

---

## ADRAN 2 CWMPAS

---

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni AU y mae un o'r sefydliadau dyfarnu AU a ganlyn wedi awdurdodi'r Grŵp i'w darparu;
  - Pearson Edexcel
  - Prifysgol Bangor

Dylai dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni AU a ddyfernir gan sefydliadau eraill edrych ar y polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar gael ar amgylchedd dysgu rhithwir y Rhaglen neu yn Llawlyfr y Rhaglen ac ar wefan y sefydliad dyfarnu.

- 2.2 Mae Polisi Grŵp Llandrillo Menai o ran Derbyn Myfyrwyr Addysg Uwch yn gyson â Chod Ymarfer yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ym maes Recriwtio a Derbyn a chydymffurfia â'r Cod Ymarfer mewn perthynas â Derbyn a weithredir gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS).
- 2.3 Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo a darparu amgylchedd sy'n cydnabod ac yn parchu'r gwahaniaethau a geir mewn unigolion. Ceir rhagor o wybodaeth am y modd yr ydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol yn ein Strategaeth Cydraddoldeb [www.gllm.ac.uk/policies](http://www.gllm.ac.uk/policies)
- 2.3 Ysgrifennwyd Polisi'r Grŵp o ran Derbyn Myfyrwyr Addysg Uwch er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Chod Ansawdd y QAA mewn perthynas ag Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig:

---

### ADRAN 3 ARFERION DERBYN TEG

---

- 3.1 Goruchwylia'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (HE QASC) Bolisi'r Grŵp o ran Derbyn Myfyrwyr Addysg Uwch, a'i gyfrifoldeb yw:
- Hyrwyddo tegwch, cysondeb a thryloywder yn arferion y coleg o ran recriwtio a derbyn
  - Llunio'r polisi a'r gweithdrefnau o ran derbyn myfyrwyr o wledydd Prydain a myfyrwyr rhyngwladol; goruchwyllo effeithiolrwydd y rhain a'r modd y'u gweithredir, a monitro a gydymffurfir â Datganiadau Sicrhau Ansawdd perthnasol ac â deddfwriaethau allanol
  - Goruchwyllo derbyn a recriwtio myfyrwyr o wledydd Prydain a myfyrwyr rhyngwladol ar draws y Grŵp, gan sicrhau bod y prosesau'n gywir ac yn unol ag amcanion strategol y Grŵp, a chipio a monitro mewn modd effeithiol ddata ar dderbyn myfyrwyr;
  - Hyrwyddo'r gwaith o ledaenu'r arferion gorau o ran recriwtio a derbyn ledled y coleg, canfod anghenion staff yr adran dderbyn o ran datblygiad a hyfforddiant a chyfweld tiwtoriaid er mwyn sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu bodloni
  - Yn achos darpariaeth Addysg Uwch a ddilyswyd ac a freiniwyd, hyrwyddo'r prosesau derbyn yn unol â'r sefydliadau Addysg Uwch sy'n bartneriaid i'r Grŵp.

---

### ADRAN 4 ROLAU, CYFRIFOLDEBAU a LLYWODRAETHIANT

---

- 4.1 Rheolwyr y Gwasanaethau i Ddysgwyr yng Ngholeg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor, gyda chefnogaeth y Swyddog Gyrfaedd a Derbyniadau Addysg Uwch, sy'n cydlynu ac yn gweinyddu'r broses o ran derbyn ceisiadau am le ar gyrsiau Addysg Uwch gan fyfyrwyr sy'n anfon cais drwy UCAS, drwy sefydliad Addysg Uwch sy'n bartner i'r Grŵp neu'n uniongyrchol i'r coleg. Bydd y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn:
- Rheoli'r drefn o ran derbyn myfyrwyr;
  - Darparu gwybodaeth gywir a pherthnasol i ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr;
  - Cysylltu'n uniongyrchol ag ymgeiswyr yn ystod y broses dderbyn e.e. drwy anfon gwahoddiadau i gyfweliadau;
  - Rhoi gwybod i ymgeiswyr am weithdrefnau UCAS
  - Rhoi gwybod i staff am weithdrefnau UCAS;
  - Cadarnhau ceisiadau a derbyniadau;
  - Cynorthwyo yn ystod dyddiau agored a digwyddiadau recriwtio ledled y Coleg
  - Gwneud addasiadau lleol rhesymol er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr anabl unigol yn cael mynediad llawn i'r broses dderbyn ac i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â derbyn, gan gynnwys dyddiau agored a chyfweliadau
- 4.2 Yn unol â manylebau'r rhaglenni a ddilyswyd, bydd y Cyfarwyddwr AU, y Cyfarwyddwr (Gwasanaethau i Ddysgwyr) a Rheolwr AU y Grŵp yn:
- Cysylltu â Phrifysgolion sy'n bartneriaid i'r Grŵp er mwyn paratoi cytundebau ynghylch dilyniant;
  - Cadarnhau'r meini prawf mynediad a'r gweithdrefnau dethol gyda Rheolwyr Rhaglenni ac Arweinwyr Rhaglenni.

- 4.3** Rheolwyr y Meysydd Rhaglen sy'n gyfrifol am uniondeb y broses dderbyn yn eu meysydd cwricwlwm ac am sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion o ran cymwysterau mynediad, gan lynu wrth brosesau a gweithdrefnau derbyn y Grŵp.
- 4.4** Caiff ceisiadau a'r broses dderbyn eu monitro'n ganolog ac yn unol â'r ffurflenni data y mae sefydliadau AU sy'n bartneriaid i'r Grŵp, CCAUC a Llywodraeth Cymru'n gofyn amdanynt.
- 4.5 Tryloywder**  
Mae'r Grŵp wedi ymrwymo, mewn cydweithrediad â'r sefydliad Addysg Uwch sy'n bartner iddynt, i ddarparu gwybodaeth gywir a chlr a fydd yn cynorthwyo darpar fyfyrwyr i wneud penderfyniadau cytbwys mewn perthynas â'u cais. Mae gofynion mynediad a gwybodaeth am ffioedd yr holl raglenni gradd wedi'u cyhoeddi yn y Prosbectws AU, cyhoeddiadau UCAS, Gwefan y Grŵp a gwefannau'r sefydliadau Addysg Uwch sy'n bartneriaid i'r Grŵp.
- 4.6 Sêl bendith Sefydliadau Addysg Uwch ar wybodaeth**  
Mae Rheolwr Marchnata'r Grŵp yn gyfrifol am gysylltu â phob partner Sefydliad Addysg Uwch er mwyn sicrhau bod pob gwybodaeth a gyhoeddir wedi'i chymeradwyo gan y Sefydliadau Addysg Uwch hynny ymlaen llaw.
- 4.7 Cysondeb**  
Er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch, glynir wrth yr egwyddorion a'r gweithdrefnau sydd yn y polisi hwn yn achos pob rhaglen gradd. Mae'r Grŵp yn cydnabod y gall prosesau derbyn amrywio rhywfaint o un maes pwnc i un arall, yn dibynnu ar natur y rhaglen.
- 4.8 Monitro**  
Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro'n flynyddol gan y Grŵp Sicrhau Ansawdd a Safonau ym maes Addysg Uwch ac yn cael ei gymeradwyo gan y Tîm Polisi, a lle bo hynny'n briodol, mae'n bosibl yr adolygir polisiâu a gweithdrefnau sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr ar gyrsiau gradd yn unol â newidiadau a wneir i raglenni unigol gan y Sefydliad Addysg Uwch sy'n dilysu neu er mwyn ymateb i'r amgylchedd derbyn cyfredol.

---

## **ADRAN 5 Y BROSES YMGEISIO**

---

- 5.1 Egwyddorion sy'n gysylltiedig â dethol**  
Ymdrecha'r Grŵp, mewn cydweithrediad â'r sefydliadau Addysg Uwch sy'n bartneriaid iddo, i sicrhau bod y broses ddethol yn darparu cyfle cyfartal i ymgeiswyr. Gwneir pob penderfyniad sy'n ymwneud â dethol ar sail teilyngdod ac ar sail gallu pob ymgeisydd i fodloni'r meini prawf academaidd ac anacademaidd ar gyfer cael mynediad i'r rhaglen astudio berthnasol.
- 5.2 Gofynion mynediad cyffredinol**  
Croesewir ceisiadau gan fyfyrwyr sydd wedi cymhwysu'n briodol. Yn arferol, bydd y rhai a dderbynnir wedi cael profiad academaidd a/neu broffesiynol priodol sy'n bodloni gofynion mynediad y rhaglen.

Caiff ceisiadau eu prosesu gan staff yr adran dderbyn ar sail y wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen gais. Asesir pob myfyriwr sy'n gwneud cais am le ar gwrs llawn amser a rhan-amser yn unigol a chânt gyfle cyfartal i arddangos sgiliau perthnasol ac i ddarparu gwybodaeth ategol lle

bo gofyn. Mewn rhai achosion, gall y broses ddethol gynnwys camau eraill e.e. cyfweiliadau yn ogystal â'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen gais. Mae meini prawf pob rhaglen AU yn amrywio'n unol â'r hyn a gyhoeddir yn nogfen ddilysu'r rhaglen ac a gytunwyd gyda'r Sefydliad Addysg Uwch sy'n dyfarnu.

Adolygir y gofynion mynediad academiaidd ac anacademaidd yn flynyddol yn unol â nod y Grŵp i ddarparu mynediad teg a chyfartal i bob darpar fyfyrwr a all elwa ar brofiad addysgol o safon a chyfrannu ato. Dylai staff yr adran dderbyn a'r Rheolwyr Maes Rhaglen fod yn hyblyg lle bo hynny'n briodol wrth ymateb i geisiadau unigol am gael addasu dulliau asesu.

Er mwyn cydymffurfio â gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol perthnasol, gall y bydd gofyn i rai sy'n gwneud cais i ddilyn ambell gwrs galwedigaethol neu broffesiynol fodloni asesiadau ffitrwydd i ymarfer, archwiliadau iechyd galwedigaethol (yn cynnwys brechiadau), gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i sicrhau lle ar y rhaglen. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr am y gofynion anacademaidd hyn ym manylion y cwrs cyn iddynt wneud cais a phan gynigir lle iddynt.

### **5.3 Meini prawf mynediad**

#### **5.3.1 Y gofynion lleiaf**

Mae'r Coleg, mewn ymgynghoriad â'r sefydliadau Addysg Uwch sy'n bartneriaid iddo, yn ystyried derbyn ymgeiswyr sydd ag amrediad eang o gymwysterau o'r Deyrnas Unedig a chymwysterau rhyngwladol ar ei raglenni gradd. Amlinellir yn y ddogfen ddilysu berthnasol, ac yn y wybodaeth am y cwrs, y gofynion mynediad lleiaf sy'n angenrheidiol i gael eich derbyn ar gwrs gradd yn y coleg.

Rhaid i ymgeiswyr fodloni gofynion penodol y cwrs y maent yn gwneud cais am le arno, a gall y gofynion hynny gynnwys graddau penodol mewn pynciau penodol. Rhaid i bawb sy'n gwneud cais am le ar gwrs feddu ar sgiliau llythrennedd derbynol (fel rheol, Gradd C neu uwch mewn TGAU Saesneg Iaith neu gymhwyster cyfatebol) a sgiliau rhifedd derbynol (fel rheol, Gradd C neu uwch mewn TGAU Mathemateg neu gymhwyster cyfatebol).

Yn achos rhai rhaglenni gradd, mae lleoliad gwaith a/neu brofiad gwaith yn orfodol ac mae'n bosibl y bydd meini prawf mynediad sy'n ymwneud yn benodol â'r elfen hon o'r rhaglen wedi'u nodi yn y wybodaeth am gyrsiau unigol.

#### **5.3.2 Ymgeiswyr sydd â chymwysterau o du allan y Deyrnas Unedig**

Croesawa Grŵp Llandrillo Menai geisiadau gan fyfyrwyr sy'n meddu ar gymwysterau rhyngwladol. Cyfeirir pob cais gan ymgeiswyr rhyngwladol i sylw'r Swyddfa Ryngwladol. Dylai darpar ymgeiswyr sy'n dymuno trafod a yw eu cymwysterau, nad ydynt yn gymwysterau o'r DU, yn bodloni meini prawf y rhaglen gysylltu â'r Swyddog Gyrfaoedd a Derbyniadau AU.

#### **5.3.3 Gofynion o ran y Saesneg**

Fel rheol, oni nodir yn wahanol, darperir yr addysgu, yr asesu a'r gefnogaeth i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Rhaid i'r staff cwricwlaidd fod yn ffyddiog fod gan yr ymgeisydd hyfedredd digonol yn y Gymraeg neu'r Saesneg i lwyddo ar y cwrs o'u dewis.

Os nad ydynt eisoes wedi dangos eu bod yn gallu bodloni'r safon angenrheidiol arferol, bydd gofyn i bob ymgeisydd y mae'r Saesneg yn ail iaith iddo gael cymhwyster iaith Saesneg a

gymeradwywyd er mwyn cael ei dderbyn i Grŵp Llandrillo Menai. Bydd amodau unrhyw gynigion cwrs a wneir yn cynnwys y gofyniad hwn.

Mae'r coleg a'r sefydliadau Addysg Uwch sy'n bartneriaid iddo'n cydnabod amrediad eang o gymwysterau Iaith Saesneg. Rhestrir yn nogfen ddilysu'r rhaglen y sgoriau isaf sy'n dderbyniol yn y Cymwysterau Iaith Saesneg a gyflwynir amlaf.

#### **5.3.4 Achredu dysgu blaenorol**

Achredu Dysgu Blaenorol yw'r broses y mae'r coleg, a'r sefydliadau Addysg Uwch sy'n gysylltiedig ag ef, yn ei dilyn er mwyn asesu ac, fel y bo'n briodol, i gydnabod dysgu blaenorol drwy brofiadau neu ddysgu blaenorol y rhoddwyd tystysgrif amdano, i ddibenion academiaidd. Gall y gydnabyddiaeth hon roi gwerth credyd i'r dysgu a chaniatáu iddo gyfrif tuag at gwblhau rhaglen astudio.

Penderfynir ar achrediad dysgu blaenorol unigol yn unol â fframwaith y rheoliadau ac mewn cytundeb â'r Sefydliad Addysg Uwch perthnasol. Cynghorir ymgeiswyr i wirio gyda'r Swyddog Gyrfaoedd a Derbyniadau AU yn gyntaf.

#### **5.3.5 Mynediad yn syth i flwyddyn 2 a/neu flwyddyn 3**

Gellir ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sydd am gael mynediad uniongyrchol i Flwyddyn 2 neu i Flwyddyn 3. Bydd gofyn i ymgeisydd sydd am gael mynediad uniongyrchol fel hyn i Flwyddyn 2/3 gyflwyno cofnod swyddogol o'r credydau y mae wedi'u hennill. Cynghorir ymgeiswyr i gael gair â staff yr adran dderbyn cyn gwneud cais.

#### **5.3.6 Ymgeiswyr sydd am ohirio mynediad**

Croesawa Grŵp Llandrillo Menai geisiadau gan fyfyrwyr sy'n dymuno treulio amser yn cael profiad gwaith, yn gwneud gwaith gwirfoddol neu'n teithio ar ôl iddynt adael ysgol neu goleg. Dylid nodi'r bwriad hwn ar ffurflen gais UCAS, oni bai fod yr unigolyn yn bwriadu gwneud cais yn ystod y flwyddyn y mae'n ei gymryd i ffwrdd. Dylai ymgeiswyr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd fod yn ymwybodol y dylent gadw at reolau ac amserlenni UCAS mewn perthynas â'r cylch ymgeisio y maent yn gwneud cais amdano.

#### **5.3.7 Oedran ac oedolion agored i niwed**

Mae'r Coleg a'i sefydliadau Addysg Uwch cysylltiedig yn cydnabod y bydd gofyn, mewn rhai achosion, ystyried yn ofalus oedran neu sefyllfa oedolyn agored i niwed pan fydd yn gwneud cais am ddilyn rhai rhaglenni (Gweler pwynt 5.2).

#### **5.3.8 Ymgeiswyr sy'n ailymgeisio**

Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno ailymgeisio gysylltu â'u Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr perthnasol cyn cyflwyno cais. Bydd panel derbyn yn ystyried cymhwysra ymgeiswyr sydd eisoes wedi cael cynnig lle, ond na fodlonodd yr amodau academiaidd ar y cynnig cyntaf, ac yn penderfynu a ddylid mynd ymlaen â'r cais. Dylai ymgeiswyr o'r fath fod yn ymwybodol nad oes sicrwydd y byddant yn derbyn cynnig arall, ac y gall amodau unrhyw gynnig pellach fod yn wahanol i amodau'r cynnig gwreiddiol.

#### **5.3.9 Ymgeiswyr sydd wedi wynebu Amgylchiadau Eithriadol**

Os bydd unrhyw ymgeisydd yn teimlo y gallai afiechyd blaenorol neu amgylchiadau personol ac eithrio afiechyd (e.e. profedigaeth, neu amgylchiadau anodd eraill gartref neu mewn perthynas â theulu) fod wedi effeithio ar eu haddysg flaenorol, neu ar y graddau a gawsant mewn



arholiadau yn y gorffennol, mae croeso iddynt gysylltu â'r coleg i drafod hyn ymhellach. Bydd pob cais ffurfiol sy'n ymwneud ag amgylchiadau lliniarol yn cael ei ystyried yn ystod y broses dderbyn, a dylid cyflwyno datganiad llawn i ategu natur yr amgylchiadau.

### **5.3.10 Ceisiadau gan ddysgwyr a waharddwyd**

Mae Grŵp Llandrillo Menai'n cadw'r hawl i wrthod mynediad i ymgeisydd a waharddwyd o'r blaen o'r coleg hwn neu o unrhyw sefydliad addysgol arall.

### **5.3.11 Dyledion heb eu talu**

Mae'r coleg yn cadw'r hawl i beidio â derbyn ymgeisydd sydd â dyled nad yw wedi'i thalu i Grŵp Llandrillo Menai.

### **5.3.12 Collfarnau troseddol**

Yn rhan o'i ddyletswydd gofal i aelodau ei gymuned ddysgu, polisi Grŵp Llandrillo Menai yw gofyn i bob ymgeisydd ddatgelu, wrth wneud eu cais, unrhyw gollfarn droseddol nad yw wedi darfod. Os nad yw ymgeisydd y mae gofyn iddo ddatgelu trosedd yn gwneud hynny, dylid nodi yr ystyrir hynny'n fater difrifol sy'n debygol o olygu y gwrthodir ei gais, neu os derbyniwyd y cais eisoes, y tynnir ei enw oddi ar y gofrestr.

Ni fydd record droseddol o anghenraid yn atal yr ymgeisydd rhag cael cynnig lle; dibynna, er enghraifft, ar natur, amser a pherthnasedd y drosedd sydd dan sylw ac ar y rhaglen y gwneir cais i'w dilyn. Gall y coleg ofyn am ragor o wybodaeth am natur neu gyd-destun record droseddol ymgeisydd.

Rhaid cyfeirio at sylw Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr bob ymgeisydd sy'n datgelu euogfarn nad yw wedi darfod. Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r Gwasanaethau i Ddysgwyr i gael arweiniad pellach.

Lle nodir hynny yn y prospectws, gall rhaglenni penodol olygu cysylltiad rheolaidd â phlant a/neu oedolion agored i niwed, a bydd angen i ymgeiswyr gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mewn achos o'r fath, bydd y coleg yn anfon cyfarwyddiadau pellach yn ystod y broses dderbyn.

### **5.2.13 Ymgeiswyr sydd mewn carchar ar hyn o bryd**

Rhaid cyfeirio cais a dderbynnir gan unrhyw un sydd mewn carchar ar hyn o bryd i sylw Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr er mwyn cael cydsyniad AdAS cyn ystyried y cais. Heb y cytundeb hwn, ni fydd y coleg yn derbyn cyllid am unrhyw le a roddir i garcharorion.

---

## **ADRAN 6 Y PROESAU O RAN DERBYN MYFYRWYR LLAWN AMSER**

---

### **6.1 Proses UCAS**

Wrth ymdrin â cheisiadau, mae Grŵp Llandrillo Menai'n dilyn gweithdrefn a dyddiadau cau eu partneriaid Addysg Uwch ac UCAS. Dylid gwneud ceisiadau am ddilyn cyrsiau gradd llawn amser drwy UCAS ar-lein ar [www.ucas.com/students/apply](http://www.ucas.com/students/apply)

### **6.2 Dyddiadau cau**

Dylai UCAS dderbyn pob cais am ddilyn cyrsiau a fydd yn dechrau fis Medi erbyn y dyddiad cau yr un flwyddyn.

Rhoddir ystyriaeth gyfartal i geisiadau a wneir cyn y dyddiad cau yn unol â'r meini prawf a nodwyd o ran derbyn myfyrwyr ac yng nghyd-destun y nifer o lefydd sydd ar gael. Os bydd llefydd ar gael, gall Grŵp Llandrillo Menai ystyried ceisiadau hwyr. O ran niferoedd targed sy'n dilyn cyrsiau, mae Grŵp Llandrillo Menai'n cydweithio'n agos â'r sefydliadau Addysg Uwch sy'n bartneriaid iddo, ac adolygir y niferoedd hyn yn rheolaidd.

### **6.3 Cysylltu ag ymgeiswyr**

UCAS sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb ffurfiol o gydnabod ceisiadau a rhoi gwybod am ganlyniadau ceisiadau. Bydd Grŵp Llandrillo Menai a'r sefydliadau Addysg Uwch sy'n bartneriaid iddo hefyd yn cydnabod derbyn ceisiadau unigol ac yn cysylltu'n uniongyrchol ag ymgeiswyr yn ystod y broses dderbyn.

### **6.4 Ymgeiswyr sydd ag anawsterau corfforol neu anawsterau dysgu**

Croesawa Grŵp Llandrillo Menai geisiadau gan fyfyrwyr sydd ag anabledau corfforol a/neu anawsterau dysgu. Bydd y Coleg yn gwneud addasiadau rhesymol i helpu i sicrhau bod gan ymgeiswyr anabl fynediad llawn a chyfartal i'w weithdrefnau derbyn a'i gyrsiau. Cedwir yr ystyriaeth a roddir i addasrwydd academiaidd ymgeisydd unigol ar wahân i unrhyw ystyriaeth a roddir i ofynion yr ymgeisydd mewn perthynas â chymorth yn sgil anabledd.

Gwahoddir ymgeiswyr i nodi statws eu hanabledd ar eu ffurflen gais ac argymhella'r coleg yn gryf y dylai ymgeiswyr ddatgelu unrhyw anabledd. Pan fydd ymgeiswyr yn dewis peidio â datgelu anabledd, gall hynny ei gwneud yn anos, ac yn amhosibl mewn rhai achosion, i'r coleg wneud addasiadau priodol.

Bydd Tîm Cymorth Dysgu'r Grŵp yn cysylltu'n uniongyrchol â phob ymgeisydd sy'n datgelu angen dysgu ychwanegol neu anabledd

Os bydd ymgeiswyr yn teimlo bod eu hanhawster corfforol neu anhawster dysgu wedi golygu eu bod wedi wynebu amgylchiadau eithriadol y dylid eu cadw mewn cof wrth ystyried eu cais, dylent gyfeirio at adran 5.3.9 Ymgeiswyr sydd wedi wynebu Amgylchiadau Eithriadol.

### **6.5 Datganiadau twyllodrus, llên-ladrad ac anwaith**

Mae Grŵp Llandrillo Menai a'r sefydliadau Addysg Uwch sy'n bartneriaid iddo'n dilyn gweithdrefnau UCAS mewn perthynas â datganiadau twyllodrus ac anwaith. Ni ddylai ymgeiswyr hepgor unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani nac unrhyw wybodaeth berthnasol, camliwio (e.e. drwy gyfrwng llên-ladrad) na rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgeisio, gan gynnwys ar ôl i gynnig gael ei wneud. Os digwydd hyn, ceidw'r coleg yr hawl i wrthod cais, i dynnu cais am le'n ôl a/neu i ddadgofrestru'r ymgeisydd.

Er mwyn canfod datganiadau sy'n debyg i'w gilydd, mae'r Gwasanaeth Canfod Tebygrwydd sydd gan UCAS yn prosesu pob datganiad personol a dderbynnir i ategu cais. Bydd yr ymgeisydd a'r coleg yn derbyn rhybudd gan UCAS o bob achos lle canfyddir swm sylweddol o lôn-ladrad posibl. Yn ôl doethineb Grŵp Llandrillo Menai, mae'n bosibl y rhoddir cyfle i ymgeiswyr a ganfuwyd gan Wasanaeth Canfod Tebygrwydd UCAS i gyflwyno datganiad personol newydd i ategu eu cais.

### **6.6 Cyfweiliadau**

Gall ymgeiswyr gael eu gwahodd i gyfweiliad am nifer o resymau. Pwrpas cyfweiliadau yw sicrhau bod ymgeisydd yn deall natur a gofynion y rhaglen radd o'u dewis a'u bod yn cael cyfle i ymweld â'r coleg, gweld y cyfleusterau a chyfarfod aelodau o'r staff academiaidd a'r staff ategol.

Yn achos rhai rhaglenni, mae cyfweiliad yn rhan o'r broses ddethol er mwyn i bob ymgeisydd gael yr un cyfle i ddangos ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth a'i addasrwydd ar gyfer y rhaglen astudio.

Gall ymgeiswyr sydd â chefnidir academiaidd anhraddodiadol, gan gynnwys rhai sy'n trosglwyddo o brifysgol neu goleg arall, gael eu gwahodd i gyfweiliad. Mewn achosion o'r fath, mae cyfweiliadau'n gyfle i ddysgu rhagor am gymwysterau a chymhelliad yr ymgeisydd a'r hyn y mae wedi'i wneud i baratoi ar gyfer dilyn y rhaglen.

Gall y bydd ar rai ymgeiswyr (e.e. ymgeiswyr anabl) angen addasiadau mewn cyfweiliadau er mwyn iddynt gael mynediad llawn a chyfartal i'r broses. Mae'r Grŵp yn gyfrifol am wneud addasiadau rhesymol lle bo hynny'n bosibl, a bydd yn ymgynghori â'r Tîm Cymorth Dysgu er mwyn cael rhagor o gyngor neu wybodaeth.

## **6.7 Cynigion**

### **6.7.1 Cynnig Amodol**

Golyga cynnig amodol y bydd Grŵp Llandrillo Menai a'r sefydliadau Addysg Uwch sy'n bartneriaid iddo yn cynnig lle i ymgeisydd ar yr amod ei fod yn bodloni amodau penodol. Fel rheol, mae'r amodau wedi'u seilio ar ennill cymwysterau arbennig. Gall amodau eraill gynnwys gwiriadau cofnodion troseddol boddhaol.

Mae pob cynnig yn ymwneud yn benodol â chymwysterau ac amgylchiadau personol ymgeisydd, wedi'u hystyried yng nghyswllt y rhaglen radd y gwneir cais i'w dilyn.

Hyd yn oed os gohiriwyd mynediad tan y flwyddyn ganlynol, fel rheol, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r amodau a nodwyd gan y Coleg erbyn 31 Awst o'r flwyddyn y gwnaed y cais, oni nodir fel arall yng ngofynion y cwrs sydd dan sylw.

### **6.7.2 Cynnig diamod**

Golyga cynnig diamod fod yr ymgeisydd wedi bodloni'r gofynion mynediad academiaidd ac anacademaidd ac wedi'i dderbyn ar y rhaglen astudio o'i ddewis.

### **6.7.3 Cais aflwyddiannus**

Os bydd y coleg a'r sefydliadau Addysg Uwch sy'n bartneriaid iddo'n penderfynu peidio â chynnig lle i ymgeisydd ar y rhaglen, bydd yr ymgeisydd hwnnw'n derbyn ateb yn dweud na fu'n llwyddiannus. Gall ymgeiswyr fod yn aflwyddiannus am sawl rheswm a dylent fod yn ymwybodol bod rhai rhaglenni colegol yn derbyn mwy o geisiadau nag sydd o lefydd ar gael. Caiff ymgeiswyr na lwyddodd i gael lle ar y rhaglen astudio o'u dewis wybod pam y gwnaed y penderfyniad hwn.

### **6.7.4 Cais a dynnwyd yn ôl**

Gall yr ymgeisydd neu'r Grŵp dynnu cais yn ôl. Gan amlaf, os bydd y Grŵp yn tynnu cais yn ôl, rhoddir y rheswm ar UCAS Track. Mae'r Grŵp yn cadw'r hawl i dynnu cynnig yn ôl hyd at yr adeg y'i derbynnir gan yr ymgeisydd. Pan fydd gofyn i ymgeiswyr ddod i gyfweliad fel rhan o'r broses ymgeisio, gellir tynnu ceisiadau'n ôl os na fydd ymgeisydd yn dod i'r cyfweliad, heb roi gwybod ymlaen llaw, neu os na fydd ymgeisydd yn gallu bod yn bresennol ac nad oes modd trefnu dyddiad arall rhesymol.

### **6.8 UCAS Extra**

Bydd y Grŵp yn dweud wrth UCAS ar gyfer pa raglenni y byddant yn derbyn ceisiadau Extra a bydd y rhain i'w gweld ar wefan UCAS ar <https://www.ucas.com/>

Gall ymgeiswyr na chafodd eu derbyn neu sydd wedi gwrthod y cynigion a gawsant gan Sefydliadau Addysg Uwch eraill ddefnyddio UCAS EXTRA cyn 30 Mehefin. Ystyrir holl geisiadau UCAS Extra o fewn 21 diwrnod a chyn 12 Gorffennaf.

### **6.9 Clirio ac Addasu**

Mae System Glirio UCAS yn cynnig cyfle olaf i ymgeiswyr nad ydynt wedi sicrhau lle erbyn dechrau mis Awst. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan UCAS am bwy sy'n gymwys i ddefnyddio'r broses glirio.

Bob blwyddyn, bydd rhai ymgeiswyr yn cael canlyniadau gwell na'r disgwyl yn yr arholiadau. Mae'r broses addasu ar gyfer ymgeiswyr sy'n bodloni ac yn rhagori ar amodau eu dewis pendant. Mae'n gyfle iddynt ailystyried lle a beth y maent am astudio. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan UCAS ynghylch y cyfnod Addasu.

Bydd y Coleg yn cyhoeddi unrhyw lefydd gwag ar wefan UCAS ac ar wefan y coleg a gall eu cynnig i ymgeiswyr addas. Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r coleg yn uniongyrchol i holi am lefydd sydd ar gael.

### **6.10 Cadarnhau**

Y cyfnod cadarnhau yw'r cyfnod ym mis Awst bob blwyddyn pan fydd sefydliadau addysgol yn derbyn canlyniadau Lefel A a chymwysterau eraill (o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt) ymgeiswyr sydd wedi derbyn cynigion amodol (mae rhai cyrff dyfarnu e.e. BTEC/EdExcel yn rhyddhau eu canlyniadau yn gynharach yn ystod yr haf). Ar sail y canlyniadau hyn, caiff ymgeiswyr sydd wedi derbyn y graddau gofynnol a nodwyd yn eu cynnig amodol gadarnhad bod lle wedi'i neilltuo iddynt. Os oes llefydd yn dal ar ôl ar y rhaglen o'u dewis, gellir adolygu ceisiadau rhai nad ydynt wedi sicrhau'r graddau angenrheidiol a chadarnhau bod lle iddynt.

### **6.11 Adborth**

Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn dymuno cael gwybod pam y gwrthodwyd eu cais. Rhaid i bob cais am adborth gael ei anfon yn ysgrifenedig at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr a'i lofnodi gan yr ymgeisydd. Yn gyffredinol, pan fydd ymgeiswyr yn gofyn am adborth ynghylch pam na chawsant eu derbyn, rhoddir yr adborth drwy gyfrwng system dracio UCAS.

---

## ADRAN 7 Y BROSES O RAN DERBYN MYFYRWYR RHAN-AMSER

---

**7.1** Mae'r coleg yn croesawu ceisiadau gan amrywiaeth eang o fyfyrwyr. Mae'r un egwyddorion a gwerthoedd sy'n sail i weithdrefn Grŵp Llandrillo Menai o ran derbyn myfyrwyr yn sail hefyd i'r weithdrefn o ran derbyn myfyrwyr rhan-amser. Fodd bynnag, mae'r polisi hwn yn cydnabod bod gwahaniaethau penodol ac angenrheidiol os gwneir cais i goleg fel myfyriwr rhan-amser. Gellir cyflwyno cais i ddilyn cwrs AU rhan-amser drwy UCAS neu'n uniongyrchol i'r Grŵp ar-lein drwy'r broes gwneud cais ar-lein sydd ar wefan y Grŵp.

Mae'r adran hon o Bolisi Grŵp Llandrillo Menai o ran Derbyn Myfyrwyr Addysg Uwch yn dynodi'r prif feysydd mewn perthynas â mynediad ansafonol lle mae gofyn dilyn prosesau a gweithdrefnau eraill. Fel arall, mae'r polisi arferol yn berthnasol.

### **7.2 Astudio'n Rhan-amser – Ymgeiswyr Uniongyrchol**

Dylai ymgeiswyr sydd am ddilyn rhaglenni rhan-amser wneud cais yn uniongyrchol i'r Grŵp gan ddefnyddio'r ffurflen gais sydd ar y wefan. Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth o'r cymwysterau y mae gofyn eu cael i ddilyn y rhaglen. Yn arferol, gwahoddir ymgeiswyr i gyfweiliad byr; cânt wybod canlyniad y cyfweiliad a gwybod am unrhyw amodau pellach o ran gofynion mynediad neu waith sy'n berthnasol i'r rhaglen.

### **7.3 Dyddiadau Cau ar gyfer Mynediad i Fyfyrwyr Rhan-amser**

Nid yw'r un dyddiadau cau ag a nodir gan UCAS yn berthnasol i ymgeiswyr sydd am gofrestru ar raglenni rhan-amser a gellir derbyn eu ceisiadau'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Fodd bynnag, argymhellir eu bod yn anfon ceisiadau erbyn 28 Awst yn y flwyddyn mynediad.

### **7.4 Cysylltu ag ymgeiswyr rhan-amser**

Bydd staff yr adran dderbyn yn cysylltu'n uniongyrchol drwy EBS Prospects (y porth gwneud cais ar-lein), y post neu e-bost â rhai sy'n gwneud cais i ddilyn rhaglenni gradd rhan-amser.

---

## ADRAN 8 DATA PERSONOL YMGEISWYR

---

- 8.1 O ran trafod data personol, mae Grŵp Llandrillo Menai'n cydymffurfio â rheoliadau UCAS a chyda'r Ddeddf Diogelu Data.
- 8.2 Drwy lofnodi'r ffurflen gais yn electronig a derbyn y rhybudd preifatrwydd sydd ar y ffurflen gais, rhydd ymgeiswyr ganiatâd i Grŵp Llandrillo Menai brosesu eu data personol i ddibenion rheoli gweithdrefnau'r coleg o ran derbyn myfyrwyr.
- 8.3 Bydd Grŵp Llandrillo Menai'n:
- Gofyn am gyn lleied o ddata personol ag sy'n angenrheidiol;
  - Sicrhau bod pob data personol yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol ac ond yn cael ei ddefnyddio i'r pwrpas y'i casglwyd;
  - Cynnal a chadw data'n unol â gofynion statudol

Mae gwybodaeth bellach ar sut i reoli data personol ym [Mholisi'r Grŵp o ran Preifatrwydd](#).

- 8.4 Dylai ymgeiswyr a'u canolwyr nodi nad yw unrhyw eirida a roddir ar geisiadau UCAS bellach yn gyfrinachol ac y bydd UCAS yn rhyddhau manylion geirida os ceir cais gan yr ymgeisydd wedi iddo dalu ffi briodol.
- 8.5 Os oes gan ymgeiswyr unrhyw bryderon mewn perthynas â phrosesu eu data personol, dylent gysylltu â'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwybodaeth drwy anfon neges e-bost at [data@gllm.ac.uk](mailto:data@gllm.ac.uk)

---

## **ADRAN 9 FFIOEDD A CHYMORTH ARIANNOL**

---

- 9.1 Bydd Grŵp Llandrillo Menai'n adolygu ac yn cyhoeddi ffioedd cyrsiau ei raglenni AU llawn amser a rhan-amser yn flynyddol.
- 9.2 Mae'r Coleg yn cynnig cymorth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser ac i fyfyrwyr llawn amser. Mae gwybodaeth am y lefelau a'r mathau o gymorth sydd ar gael, yn cynnwys pwy sy'n gymwys i dderbyn cymorth ariannol a bwrsariau, ar gael ar wefan y coleg. Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am gymorth ariannol y Grŵp i fyfyrwyr AU.

---

## **ADRAN 10 CWYNIION AC APELIADAU**

---

- 10.1 Bydd Grŵp Llandrillo Menai'n ystyried pob ymgeisydd yn deg ac yn effeithiol yn unol â'r weithdrefn a amlinellir yn y ddogfen hon. Gwna'r Grŵp ei orau glas i ddarparu gwasanaeth derbyn o safon gyson uchel; cydnabyddwn y gall pethau weithiau fynd o chwith ac y gall ymgeiswyr ystyried bod ganddynt le i gwyno neu i apelio.
- 10.2 I ddibenion y polisi hwn, diffinnir apêl fel cais gan ymgeisydd aflwyddiannus am adolygiad ffurfiol i ganlyniadau penderfyniad yr adran dderbyn. Fel rheol, ni ystyrir apelïadau oni bai fod tystiolaeth o anghysondeb perthnasol yn y broses benderfynu.
- 10.3 Diffinnir cwyn fel mynegiant o anfodlonrwydd â'r ffordd y rhoddwyd polisi neu weithdrefnau'r coleg o ran derbyn myfyrwyr ar waith i benderfynu ynghylch derbyn myfyriwr.
- 10.4 Nodwch na ystyrir cwyn neu apêl sydd ond yn anghytuno â barn academiaidd y tîm derbyn.
- 10.5 Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno apelio neu gwyno ysgrifennu at Gyfarwyddwr Llywodraethu a Gwybodaeth y Grŵp, gan egluro'n glir ar ba sail y cwynir neu yr apelir.

Ar ôl derbyn cwyn, bydd yr Y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwybodaeth yn cysylltu ag Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Academaidd (neu rywun a enwebwyd ac nad yw'n ymwneud â'r broses dderbyn) er mwyn adolygu'r penderfyniad i wrthod yr ymgeisydd. Yn dilyn adolygu'r penderfyniad hwn, bydd Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Academaidd, neu rywun a enwebwyd, yn ysgrifennu at yr ymgeisydd gan roi'r sail dros y penderfyniad. Bydd y penderfyniad hwn yn derfynol.

---

## **ADRAN 11 MONITRO A GWERTHUSO**

---

11.1 Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn adolygu perfformiad y polisi hwn, a'r modd y cydymffurfir ag ef, yn flynyddol, a bydd y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a Safonau'n monitro hynny. Rhaid i'r Tîm Polisi gymeradwyo pob newid a wneir i'r Polisi o ran Derbyn Myfyrwyr Addysg Uwch.

---

**ADRAN 12 GWYBODAETH BELLACH**

---

12.1 I gael gwybodaeth am gyrsiau ac i wybod sut i gael eu derbyn yn fyfyrwyr yng Ngrŵp Llandrillo Menai, dylai ymgeiswyr gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau i Ddysgwyr. Dylid cyfeirio pob ymholiad i'r Gwasanaethau i Ddysgwyr yn y coleg perthnasol:

<b>Coleg Llandrillo</b>	<b>Coleg Menai</b>	<b>Coleg Meirion-Dwyfor</b>
Campws Llandrillo-yn-Rhos Ffordd Llandudno Llandrillo-yn-Rhos Bae Colwyn Conwy LL28 4HZ	Campws Bangor Ffordd Ffriddoedd Bangor Gwynedd LL57 2TP	Campws Pwllheli Penrallt Pwllheli Gwynedd LL53 5EB
01492 546 666 est. 288	01248 370 125	01758 701 385

Gall rhai sy'n ymgeisio am ddilyn cwrs AU gael canllawiau manwl drwy anfon neges e-bost at y Swyddog Gyrfaoedd a Derbyniadau AU - [HECareers@gllm.ac.uk](mailto:HECareers@gllm.ac.uk)

**CYHOEDDI'R POLISI**


Bydd y polisi hwn ar gael yn ddwyieithog i'r cyhoedd ar wefan y Grŵp ac yn llawlyfr pob rhaglen AU, a bydd ar gael i'r holl aelodau staff ar Borth y Grŵp.



## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

<b>Cwblhawyd yr asesiad gan:</b>	Gwennan Richards	<b>Dyddiad:</b>	02/12/2021
<b>Cymeradwywyd yr asesiad gan:</b>		<b>Dyddiad:</b>	


Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / mesurau rheoli arbennig
Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses?	Ni fydd unrhyw grwpiau a warchodir dan anfantais yn sgil y polisi hwn. Lluniwyd y polisi er mwyn sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob darpar fyfyrwr, a chaniatâ i ddull hyblyg gael ei ddefnyddio lle bo'n briodol e.e. yn achos ymgeiswyr sydd ag anawsterau corfforol neu anawsterau dysgu neu ymgeiswyr sydd wedi wynebu amgylchiadau eithriadol.	
Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses?	Bydd pob grŵp a warchodir yn elwa o'r polisi hwn gan ei fod yn sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob darpar ddysgwyr. Mae'r polisi'n ystyried anghenion dysgwyr anabl, dysgwyr sydd wedi wynebu amgylchiadau eithriadol, dysgwyr o dramor nad yw eu cymwysterau o'r DU ac ati	
A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da?	Ydyw	
A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon?	Nid os cedwir at y polisi.	
A oes polisiâu eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn?	Nac oes	
<b>Casgliad</b>	Parhau â'r polisi neu'r weithdrefn	

<b>LLOFNODWYD:</b>		<b>Dyddiad:</b>	02/12/2021
--------------------	---	-----------------	------------

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

<b>Cwblhawyd yr asesiad gan:</b>	Gwennan Richards	<b>Dyddiad:</b>	02/12/2021
<b>Cymeradwywyd yr asesiad gan:</b>		<b>Dyddiad:</b>	

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / mesurau rheoli arbennig
Pa effeithiau cadarnhaol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg?	<p>Yn y polisi hwn, amlinellir sut y bydd GLIM yn sicrhau ei fod yn darparu mynediad teg a chyfartal i bob darpar myfyriwr i raglenni addysg uwch yng Ngrŵp Llandrillo Menai.</p> <p>Noda'r polisi fod cyfleoedd i fyfyrwyr gael eu haddysgu, eu hasesu a derbyn cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Yn ogystal, bydd y polisi hwn ar gael yn ddwyieithog i'r cyhoedd ar wefan y Grŵp ac yn llawlyfr pob rhaglen AU, a bydd ar gael i'r holl aelodau staff ar Borth y Grŵp.</p>	
Pa effeithiau negyddol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg?	Ni chredir y bydd y polisi'n cael unrhyw effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg.	
A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn?	Oes, mae digon o staff sy'n siarad Cymraeg yn yr adran gwasanaethau i ddysgwyr ac yn addysgu ar gyrsiau AU y Grŵp.	
Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, ac erbyn pryd?	Amherthnasol	
A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg/Strategaeth Iaith Grŵp Llandrillo Menai?	Ydyw	
<b>Casgliad</b>	Parhau â'r polisi neu'r weithdrefn	

<b>LLOFNODWYD:</b>		<b>Dyddiad:</b>	02/12/2021
--------------------	---	-----------------	------------

## Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd

<b>Cwblhawyd yr asesiad gan:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Cymeradwywyd yr asesiad gan:</b>		<b>Dyddiad:</b>	

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / mesurau rheoli arbennig
Sut fydd y polisi hwn yn effeithio ar strategaeth cynaliadwyedd y Grŵp?		
<b>Casgliad</b>		

<b>LLOFNODWYD:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
--------------------	--	-----------------	--

## FFURFLEN MANYLION POLISI POLICY IDENTIFICATION FORM /FRONTSHEET

<p><b>TEITL Y POLISI:</b> <i>POLICY TITLE:</i></p>	<i>HE Admissions Policy</i>
<p><b>UWCH-GYFARWYDDWR A CHYFRIFOLDEB:</b> <i>RESPONSIBLE EXECUTIVE DIRECTOR:</i></p>	<i>James Nelson</i>
<p><b>PWRPAS:</b> <i>PURPOSE:</i></p>	The purpose of this policy is to provide information to enquirers, applicants, progressing learners, parents and advisors relating to the recruitment, selection and admission to the higher education level programmes at Grŵp Llandrillo Menai.
<p><b>EFFAITH AR DDWYIEITHRWYDD</b> <i>IMPACT ON BILINGUALISM</i></p>	<i>Please refer to Impact Assessment at the end of the document</i>
<p><b>EFFAITH AR GYDRADDOLDEB</b> <i>IMPACT ON EQUALITY</i></p>	<i>Please refer to Impact Assessment at the end of the document</i>
<p><b>EFFAITH AR GYNALIADWYEDD</b> <i>IMPACT ON SUSTAINABILITY</i></p>	<i>Please refer to Impact Assessment at the end of the document</i>
<p><b>ARGYMHELLIAD:</b> <i>RECOMMENDATION:</i></p>	<i>To approve</i>
<p><b>CYFATHREBU</b> <i>COMMUNICATION</i></p>	<i>Tîm Strategol, Grŵp Portal</i>
<p><b>PWLLGOR / GRŴP MONITRO:</b> <i>COMMITTEE / GROUP RESPONSIBLE FOR MONITORING:</i></p>	<i>Tim Polisi CSSC Board</i>
<p><b>CYMERADWYWYD GAN (A'R DYDDIAD):</b> <i>APPROVED BY (AND DATE):</i></p>	<i>Tim Strategol – 11/10/2021 CSSC – 03/11/2021 Board – 11/11/2021</i>
<p><b>DYDDIAD ADOLYGU</b> <i>REVIEW DATE CYCLE:</i></p>	<i>Bi-Annually</i>

# **Grŵp Llandrillo Menai**

## **HIGHER EDUCATION ADMISSIONS POLICY**

Version: 6  
Policy approved by: CSSC  
Policy approval date: 03.11.2021

---

## Contents

---

SECTION 1	PURPOSE	22
SECTION 2	SCOPE	22
SECTION 3	FAIR ADMISSIONS	23
SECTION 4	ROLES, RESPONSIBILITIES and GOVERNANCE	23
SECTION 5	APPLICATION PROCESS	24
SECTION 6	ADMISSIONS PROCESSES FOR FULL-TIME STUDENTS	27
SECTION 7	ADMISSIONS PROCESS FOR PART-TIME STUDENTS	31
SECTION 8	APPLICANTS' PERSONAL DATA	31
SECTION 9	FEEES AND FINANCIAL SUPPORT	32
